

Faint o'r ymwelwyr adeiniog hyn allwch chi eu gweld yn eich gardd neu fan gwyrdd lleol?
Cadwch lygad ar y lliwiau a'r meintiau gwahanol, a gwrandewch am eu caniadau a'u galwadau.

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr ein hamgueddfa i helpu gydag adnabod, ewch i: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws



14-15 cm

Aderyn y To

Passer domesticus

Aderyn cyfarwydd sydd i'w weld mewn grwpiau mawr swnllyd mewn perthi. Mae gan y gwryw (yn y llun) gap llwyd a bib du ar fol llwyd, a chefn ac adenydd brown a du strempio. Brown mwy gwelw yw'r benyw.



22 cm

Drudwy

Sturnus vulgaris

Caiff yr aderyn cymdeithasol hwn ei weld mewn heidiau mawr yn aml. Mae'n llai na'r Aderyn Du, gyda phlu sgleiniog du gyda sglein porffor a gwyrdd, a phig melyn tenau. Gwrandewch am y chwiban swnllyd a'r trydar meddal, blith-draphlith.




24-25 cm

Aderyn Du

Turdus merula

I'w weld yn aml yn chwilio am fwyd ar y llawr. Mae'r gwryw (yn y llun) yn ddu gyda phig melyn llachar a chylchoedd o amgylch y llygaid. Mae'r benyw yn frown. Mae ganddo gân hardd, bersain a galwad gras fel larwm.



12 cm

Titw Tomos Las

Cyanistes caeruleus

Aderyn bach, lliwgar sy'n aml i'w weld yn hongian o ganghennau a bwydwy. Mae'n llai na'r Titw Mawr, gyda phen glas gwelw, bochau gwyn, cefn gwyrdd a bol melyn. Gwrandewch am yr alwad "tsee-tsee-tsee" traw uchel.



44-46 cm

Pioden

Pica pica

Aderyn mawr, cymdeithasol, cyffredin gyda galwad gleciog swnllyd. Mae'n ddu a gwyn gyda chynffonnau siâp lletem hir, a sglein porffor, glas neu wyrdd gloyw ar yr adenydd a'r gynffon.



12 cm

Nico

Carduelis carduelis

Aderyn bach lliwgar i'w weld yn aml mewn grwpiau. Mae ganddo wyneb coch nodedig, cap du a bochau gwyn, cefn brown ac adenydd du a melyn. Gwrandewch am ei gân drydarol hwyliog.



14.5 cm

Asgell fraith

Fringilla coelebs

Aderyn lliwgar yw hwn. Mae gan wrywod (yn y llun) ben llwyd, cefn brown a bol pinc. Brown pŵl yw'r benywod, ac mae gan y ddau fariau gwyn a du ar eu hadenydd. Gwrandewch am ei alwad 'pinc-pinc' ailadroddus.



14 cm

Titw Mawr

Parus major

Mwy na'r Titw Tomos Las, gyda phen du, bochau gwyn, cefn gwyrdd ac adenydd glas, a streipen ddu yn rhedeg i lawr canol y frest melyn golau. Gwrandewch am y gân dau nodyn ailadroddus.



14 cm

Robin

Erithacus rubecula

Mae'r Robin yn enwog am ei frest goch a'i gân hardd. Mae gweddill ei gorff yn frown castan ar y brig a llwyd golau islaw. Maen hefyd yn diriogaethol iawn, ac yn erlid adar eraill i fwrdd.



14 cm

Titw Gynffon-hir

Aegithalus caudatus

Aderyn bach, fflwffiog i'w weld yn aml mewn heidiau mawr. Mae ganddo gynffon du a gwyn hir, cefn du, gwyn a phinc, pen gwyn a bol pinc. Gwrandewch am ei alwad 'prrrt-prrrt' byrlymus.

